

OEDFAON A DIGWYDDIADAU'R FRO DROS YR HAF

Dydd Sul, Awst 3	<ul style="list-style-type: none"> Bydd Aneurin yn arwain oedfa yng Nghapel Bethania, Llansannan am 10.00, ac yng Nghefn Meiriadog am 6.00, a bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llanefydd am 2.00.
Dydd Gwener, Awst 8	<ul style="list-style-type: none"> Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. (SYLWCH AR Y NEWID DYDDIAD)
Dydd Sul, Awst 10	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00, ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00.
Dydd Mawrth, Awst 12	<ul style="list-style-type: none"> Cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
Dydd Sul, Awst 17	<ul style="list-style-type: none"> Bydd Mr Andras Iago yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00, ym Mheniel am 2.00, ac yn Llanefydd am 6.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Meiriadog am 10.30.
Dydd Mercher, Awst 20	<ul style="list-style-type: none"> Adnabod Cymdeithasol – Taith gerdded hamddenol. Cyfarfod yng Nghanolfan Tanyfron am 6.30. Os bydd y tywydd yn anffafriol, ffoniwch Mair (870632/07900 627536) i wybod fydd y daith ymlaen ai peidio. Croeso i bawb.
Dydd Sul, Awst 24	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00, ac yn Henllan am 2.00. Bydd Mr T. I. Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Bydd oedfa wedi ei threfnu yng Nghefn Berain am 2.00.
Dydd Sul, Awst 31	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y Parch. Robert O. Roberts yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00, yn Llanefydd am 2.00, ac yng Nghefn Meiriadog am 6.00.
Dydd Sul, Medi 7	<ul style="list-style-type: none"> Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd pryd y bydd Dona a Kevin yn cyflwyno Lela Mair i gael ei bedyddio yn Llansannan am 10.00. Bydd Aneurin hefyd yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00. Bydd yr Ysgol Sul yn ail-ddechrau yn Llansannan heddiw. Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00. Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Llanefydd, a'r oedolion am 11.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00. Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 (SYLWCH AR Y NEWID LLEOLIAD). Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00. Bydd OEDFA'R FRO yn ail-gychwyn yn Llansannan am 6.00

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 20^{ain} Gorffennaf 2014

Darlleniad y Dydd

Hebraid 1: 1-4

(BCND tud.239 / BCN: tud.220)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Croeso i bob un ohonoch i'r oedfaon heddiw, ac i bawb sy'n ei chael hi'n anodd cyrraedd y dyddiau yma, dymunwn fendith Duw arnoch. Lle bynnag 'da chi heddiw, rhannwn yn ein cymdeithas ag Ef sydd yn haeddu pob clod – Crist Iesu, ein Harglwydd. Mor odidog yw'r darn hwn o'r Beibl! Mae'n dweud yn glir fod Mab Duw yn arbennig ac uwchlaw pawb a phopeth! Mae Iesu yn Fab tragwyddol Duw ac yn haeddu pob clod.

Gwelsom beth o hyn yr wythnos diwethaf yng nghwmni'r Côr o Mizoram. Clywsom y canu a'r profiad oedd tu cefn i'r canu – yr union brofiad yma o Dduw yn gosod enw Crist ynom a'n gwneud ni yn un yng Nghrist. Cawsom lot o hwyl yn eu cwmni a diolch i Dduw amdanynt. Ond rwy'n gofidio'n arw na roddais amser i un o Arweinyddion y KTP a oedd wedi dod gyda'r Côr i ddweud gair nos Sul. Ond rwyf wedi cael sgwrs, a'i ddymuniad oedd i chi wybod y canlynol:

“Mae'r eglwys yn Mizoram yn hynod o ddyledus i'r gwaith a gyflawnodd y Parch. O. W. Owen (Pu Awna), tad eich gweinidog, Pu Zolawma. Ef gychwynnodd y KTP, sef mudiad ieuencid sydd nawr hefo dros 200,000 o aelodau ac sy'n gyfrwng i hyfforddi a datblygu arweinwyr ifanc o fewn yr Eglwys. Roedd yn hyfryd i ni gael bod yn y capel ble bu ein sylfaenydd yn weinidog ac i gyfarfod â'r teulu a theulu'r Arglwydd Iesu yn yr ardal hyfryd yma o Gymru.

Hefyd, ar ran y Côr, carwn ddiolch am y croeso twymgalon a gawsom ar aelwydydd y Fro dros dair noson ac am y caredigrwydd mawr a ddangoswyd tuag atom yn ystod ein hymweliad. Mae wedi bod yn brofiad bythgofiadwy ac yn benllanw pob dymuniad a breuddwyd o'n heiddo.

Yn olaf, diolch i chi am gymdeithas ac am gyfle i rannu'r Efengyl ac i gyd-foli'r Arglwydd gyda'n gilydd. Byddwn yn mynd yn ôl i Mizoram i ddweud wrth bawb am ein profiadau ac am y croeso a gawsom. Gobeithio y cawn weld llawer ohonoch yn Mizoram yn 2016 wrth i ni ddathlu 62 mlynedd sefydlu'r KTP. Diolch o galon a phob bendith arnoch i gyd.”

Diolch gen i hefyd i bawb a ddangosodd gareidigrwydd a lletygarwch dros gyfnod ymweliad y Côr. Cawsom ein bendithio'n fawr o fod yn eu cwmni a diolch i Dduw amdanynt ac am eich haelioni chwi. Diolch yn fawr am bob cymwynas ymarferol a'ch gweddiâu dros yr holl daith. Maent bellach, mae'n debyg, wedi cyrraedd adre – tan ganu mae'n siŵr – ac wedi dechrau rhannu eu profiadau â theulu'n ffydd ar y bryniau pell! Bydd gorfoledd eu canu yn ein cof ninnau am byth. **“Molwch yr Arglwydd!”**

Pob dymuniad da i bawb dros gyfnod yr haf, a diolch o galon ar ran Rhodri, Mair a finnau am bob cefnogaeth.

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sioned Williams, a bydd Aneurin yn pregethu.

Sul nesaf Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Sul nesaf Bydd Mr Andras Iago yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00, ac yna'n arwain Gwasanaeth Teuluol i ddod â thymor yr Ysgol Sul i ben yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Wedi hynny, bydd barbeciw a phaned i godi arian i Tearfund, a gêm o rownderi i ddilyn.

Llansannan

Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi am 10.00. Yn dilyn yr oedfa, bydd pwyllgor i drefnu rhaglen y Gymdeithas ar gyfer 2014-15.

Iau Cinio'r Jangl am 12.00.

Sul nesaf Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa am 10.00. Yn dilyn yr oedfa bydd paned wedi ei pharatoi i gasglu arian i Tearfund. Bydd unrhyw rodd ariannol yn cael ei gwerthfawrogi.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Sul nesaf Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00. Yn dilyn yr oedfa bydd paned wedi ei pharatoi gan aelodau Tanyfron a'r Waen i gasglu arian i Tearfund.

Henllan a Groes

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Saron a Pheniel

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.

Gwener Bydd Barbeciw Cig Rhost a Phwdin yn Derwen Gornel, Peniel am 6.30 o'r gloch. Pris: £8 i oedolion, £4 i blant dan 14eg. Tocynnau ar gael gan aelodau'r capel neu yn Siop Clwyd.

Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Berain am 2.00.

Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 10.00 a bydd oedfa wedi ei threfnu yng Nghefn Berain am 10.00 gyda phaned i ddilyn i godi arian i Tearfund.

PWYSIG Sylwch mai ar Awst 8fed y bydd y cyfle nesaf am ginio a sgwrs yng Nghefn Berain.

Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Dwynwen Davies (Nantglyn) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei mam. Gweddïwn y byddant oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion at Trefor Jones (Nantglyn), Elwyn Bailey (Llansannan) a Maldwyn Jones (Cefn Berain) – y tri ohonynt wedi bod yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyd yr wythnos. Cyflwynwn hwy i ofal tyner ein Duw gan hyderu y byddant yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Menna Owen (Cefn Meiriadog) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar Orffennaf 30ain!
- Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i Elgan Jones (Saron) ac Elen fydd yn priodi ar Awst 1af, ac yn yr un modd i Arwyn Jones (Nantglyn) a Sian fydd yn priodi ar Awst 2il, a Bethan Lloyd (Llanfair) a Dave fydd yn priodi ar Awst 8fed.

I ddod

- **CWRS IEUENCTID (12-15 oed)** Gorff. 28ain – Awst 1af; **ANRHEFN AWST (8-11 oed)** Awst 10fed –13eg; **SOULED OUT (oed 15+)** Awst 16eg –22ain. Cysylltwch â Choleg y Bala am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Bydd gostyngiad o £20 i bob un o'r Ofalaeth fydd yn mynychu.
- **O EGLWYS I EGLWYS AWWN** dydd Sadwrn, Medi 13eg. Dewch am dro hwyliog i greu cadwyn rhwng wyth o gapeli'r Ofalaeth – o Nantglyn i Gefn Meiriadog. Gwnewch nodyn o'r dyddiad. Mwy o fanylion yn nes at yr amser.

SYLWER Cyhoeddir y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled ar Fedi'r 7fed, ond **os cyfyd unrhyw faterion bugeiliol dros yr haf, plis cysylltwch â Mair (07900 627536)**. Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled i Mair **erbyn Medi 3ydd**.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Effesiaid 4: 1-6 (BCND tud.213 / BCN: tud.195)